CYFRES B4

# amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Enw



READ
John 20: 1-18



KEY VERSE
Romans 10: 9

## Gwers 2 Yr Arglwydd Iesu yn Atgyfodi

Pan fyddwn ni'n darllen am fywydau pobl enwog, fel rheol mae pennod olaf y llyfr yn sôn amdanyn nhw'n marw. Ar ôl hynny, does dim mwy i'w ddweud! Ond mae hanes Iesu'n wahanol iawn! Nid y bedd oedd diwedd y daith iddo ef!



**Dyma Mair Magdalen yn siarad â'r ddau ddisgybl (adnod 2).**

### C Atebwch y cwestiynau hyn:-

Pa ddiwrnod o'r wythnos oedd hi?

Ble'r oedd Mair wedi bod y bore hwnnw?

Beth welodd hi yno?

Beth oedd hi'n meddwl oedd wedi digwydd?

Beth oedd enw un o'r disgyblion?

5

**Dyma'r ddau ddisgybl yn y man lle cafodd Iesu ei gladdu.**



### C Rhowch groes trwy'r geiriau ANGHYWIR:-

Pedr oedd Y CYNTAF / YR AIL i gyrraedd y bedd.

Edrychodd y disgybl arall i mewn a gwelodd GORFF IESU / Y LLIEINIAU / Y GARREG. Yna aeth

Pedr i mewn a gwelodd DDIM BYD / IESU / Y LLIEINIAU / Y GARREG.

Yna daeth y disgybl arall a GWEIDDI / MYND I MEWN / LLEWYGU.

Ymhen tipyn, EISTEDDODD Y DYNION I DDISGWYL AM MAIR / AETH Y DYNION ADREF

/AETH Y DYNION I GYSGU.

5

**Roedd Mair ar ei phen ei hunan yn y man lle cafodd Iesu ei gladdu.**



Cafodd brofiad arbennig iawn!

**C** **Darllenwch adnodau 11 – 16 a llenwi'r Grid Geiriau gan ddefnyddio'r cliwiau:-**

1. Gwelodd Mair ddau o'r rhain.
2. Lliw.
3. Roedd Mair yn meddwl mai hwn oedd y dyn a siaradodd â hi.
4. Yr enw a roddodd Mair ar Iesu.
5. Dywedodd Iesu nad oedd wedi _ _ _ _ _ _ at ei Dad.
6. Aeth Mair i ddweud wrth y rhain.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | | | | |
| 2 | | | | | | | | |
| 3 | | | | | | | | |
| 4 | | | | | | | | |
| 5 | | | | | | | | |
| 6 | | | | | | | | |

6

Trodd tristwch Mair yn llawenydd pan sylweddolodd mai yr Un a fu farw ar y groes oedd y dyn a fu'n siarad â hi. Roedd Duw wedi'i atgyfodi ef. Roedd hi'n hollol sicr o hynny.

**Mae ATGYFODI yn golygu DOD YN FYW AR ÔL MARW. 1 Corinthiaid 15:3 a 4**

Mae atgyfodiad Iesu yn rhan bwysig iawn o gynllun mawr Duw i'n hachub ni. Roedd yn dweud yn yr Hen Destament y byddai'n cael ei atgyfodi. Felly, rydym yn gwybod bod marwolaeth Iesu yn ddigon i roi maddeuant i ni am ein holl bechodau.

**C** **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

Mae'r wers yn gorffen â'r Iesu byw yn rhoi tasg i Mair.

**C** **At bwy wnaeth Iesu anfon Mair?**

**Beth oedd hi i fod i'w ddweud wrthyn nhw?**

2

Heddiw, pobl fel Mair sy'n nabod Iesu ac yn ei garu sy'n gallu dweud wrth bobl eraill amdano. Ydych chi'n ei nabod ac yn ei garu? Ydych chi'n dweud wrth bobl eraill amdano?

cyfanswm